Polisi Defnyddwyr Bysiau Cymru ar y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol

Bus Users Cymru
Gweithio dros deithwyr
Working for passengers

Fel egwyddor graidd, mae Defnyddwyr Bysiau Cymru yn gwrthwynebu unrhyw ostyngiadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau.

Mae cyllid yn angenrheidiol ac yn fuddiol oherwydd bod gwasanaethau bysiau yn

- hanfodol i'r economi leol (ac felly i economi Cymru gyfan);
- maent yn ehangu'r gronfa lafur ar gyfer cyflogwyr (ac i'r gwrthwyneb, yn creu cyfleoedd ehangach i bobl gael mynediad at waith);
- maent yn cysylltu pobl â gwasanaethau hanfodol fel gwasanaethau addysg ac iechyd (ac yn aml mae'r rhain wedi cael eu canoli er mwyn gwneud arbedion mewn rhannau eraill o bwrs y wlad, gan olygu bod yn rhaid i bobl deithio ymhellach);
- maent yn agor cymunedau anghysbell i'r byd ehangach;
- maent yn agor cyfleoedd eraill sy'n gwella bywyd;
- a'r cyfan mewn ffordd sy'n gynaliadwy.

Ac yn bwysicaf oll, mae pobl sydd heb fynediad i drafnidiaeth breifat, p'un ai oherwydd incwm cyfyngedig, materion iechyd, oedran (ifanc neu hen), anabledd ac ati yn cael mynediad i'r cyfryw gyfleoedd drwy wasanaethau bysiau.

Maent hefyd yn darparu dewis arall cynaliadwy i ddefnyddwyr ceir ac efallai'n golygu bod teulu'n gallu ymdopi gydag un car yn hytrach na dau.

Mae ad-dalu cilometrau a ffurfiau eraill ar gyllid cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau bysiau yn golygu y gellir rhedeg rhwydwaith ehangach o wasanaethau am gost is nag y byddai'n bosibl fel arall.

Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa o gyfyngiadau ar gyllid a byddwn yn cymryd rhan ym mhob trafodaeth ac ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

Mae swyddogion cydymffurfio bysiau Defnyddwyr Bysiau Cymru yn gyfrifol am fonitro ad-dalu cilometrau'r RTSG a byddant yn gweithio ochr yn ochr â gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol.

Ceir mwy o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen hon:
www.assemblywales.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements/dat20130117-e.pdf?langoption=3&ttl=Bus%20Services%20in%20Wales%20(PDF%2C%20189KB)